Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Fframwaith dysgu ac ymsefydlu ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant

Gwybodaeth am y Fframwaith dysgu ac ymsefydlu ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Cyhoeddwyd gyntaf: 1 July 2026
Diweddariad olaf: 9 November 2026

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf. Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/cymwysterau-ac-ariannu/fframweithiau-sefydlu/fframwaith_dysgu_ymsefydlu_rheolwyr_blynyddoedd_cynnar_gofal_plant am y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am y Fframwaith dysgu ac ymsefydlu ar gyfer rheolwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Cyflwyniad

Mae'r **fframwaith dysgu ac ymsefydlu ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant (y fframwaith)** yn ymdrin â'r wybodaeth a'r ymarfer sydd eu hangen ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant. Gellir ei ddefnyddio i gefnogi cynefino i rôl reoli, yn ogystal â chefnogi dysgu parhaus a datblygiad proffesiynol drwy gydol gyrfa rheolwr.

Mae'r fframwaith hwn yn disodli Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer rheolwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Beth yw e?

Mae'r fframwaith yn broses ddysgu ac ymsefydlu genedlaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'ch helpu i adeiladu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Mae'n cefnogi ymsefydlu i rolau rheoli yn ogystal â datblygiad proffesiynol parhaus drwy gydol gyrfa rheolwr.

Mae dwy ran i’r fframwaith:

Rhan A – Gwybodaeth

Mae Rhan A yn seiliedig ar dair prif safon sy'n canolbwyntio ar yr hyn y mae angen i chi ei ***wybod*** fel rheolwr:

- **Safon 1:** Arwain ymarfer plentyn-ganolog
- **Safon 2:** Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli
- **Safon 3:** Deall sut i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol

Rhan B – Cymhwysedd

Mae Rhan B yn seiliedig ar chwe phrif safon sy'n canolbwyntio ar y cymwyseddau a enillwyd wrth weithio fel rheolwr:

- **Safon 1:** Arwain a rheoli ymarfer plentyn-ganolog
- **Safon 2:** Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol
- **Safon 3:** Arwain a rheoli ansawdd y gweithle/lleoliad
- **Safon 4:** Ymarfer proffesiynol
- **Safon 5:** Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu'r broses o ddiogelu plant
- **Safon 6:** Arwain a rheoli iechyd, diogelwch a diogeledd yn y gweithle/lleoliad

Dogfennau'r fframwaith

Dogfennau

Bydd angen y dogfennau canlynol arnoch i gwblhau'r fframwaith:

Arweinlyfr y fframwaith

Cofnod tystiolaeth: Rhan A (Gwybodaeth)

Cofnod tystiolaeth: Rhan B (Cymhwysedd)

Cyn i chi ddechrau'r fframwaith, neu gefnogi rhywun arall i'w gwblhau, rydym yn argymell eich bod yn darllen yr arweinlyfr yn gyntaf.

Pwy ddylai gwblhau’r fframwaith?

Os ydych chi'n newydd i rôl rheolwr blynyddoedd cynnar a gofal plant, rydyn ni'n argymell cwblhau Rhan A a Rhan B o'r fframwaith fel rhan o'ch cyfnod ymsefydlu. Bydd y fframwaith yn eich helpu i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gofal plant yn effeithiol.

Os ydych chi'n rheolwr profiadol, rydyn ni'n argymell defnyddio'r fframwaith fel rhan o'ch datblygiad proffesiynol parhaus. Gall cwblhau Rhan A a Rhan B eich helpu i adnewyddu a chryfhau eich gwybodaeth, myfyrio ar eich ymarfer a nodi meysydd i'w datblygu ymhellach.

Gall Rhan A hefyd helpu pobl sy'n ystyried symud i rôl reoli drwy ddatblygu eu dealltwriaeth o arweinyddiaeth a rheolaeth yn y sector.

Sut fyddwch chi'n cwblhau’r fframwaith?

Mae dwy ddogfen i'w cwblhau:

- **Cofnod tystiolaeth: Rhan A (Gwybodaeth)** - i gwblhau Rhan A o'r fframwaith
- **Cofnod tystiolaeth: Rhan B (Cymhwysedd)** - i gwblhau Rhan B o'r fframwaith

Byddwch yn cwblhau'r fframwaith trwy gofnodi tystiolaeth yn yr ardal *log tystiolaeth* ym mhob dogfen. Mae'r fframwaith yn annog dull holistaidd, lle gellir mapio darnau unigol o dystiolaeth ar draws sawl safon.

Beth mae'r fframwaith yn ei gwmpasu?

Mae'r fframwaith hwn yn nodi safonau sy'n cyfateb i'r deilliannau dysgu gorfodol ar gyfer y cymwysterau Ymarfer canlynol:

- Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
- Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

Mae'r safonau hyn yn egluro'r wybodaeth a'r ymarfer gofynnol ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Er bod y fframwaith yn defnyddio'r un deilliannau dysgu â'r cymwysterau hyn, fframwaith gweithle ydyw, nid cymhwyster a asesir. Mae hyn yn golygu eich bod chi'n ei gwblhau drwy gasglu a chyflwyno tystiolaeth o'ch gweithle i ddangos eich cymhwysedd. Bydd hyn wedyn yn cael ei adolygu a'i ddefnyddio i benderfynu a ydych chi'n bodloni'r safonau.

Rolau a chyfrifoldebau

Unigolion sy'n cwblhau'r fframwaith

Os ydych chi'n cwblhau'r fframwaith, chi sy'n gyfrifol am gwblhau'r rhannau perthnasol a chofnodi tystiolaeth sy'n dangos eich bod yn deall y safonau a sut rydych yn eu defnyddio yn eich rôl.

Person a enwebwyd

Mae person a enwebwyd yn cefnogi'r rheolwr ac yn ei arwain drwy rannau A a B y fframwaith, gan adolygu a chadarnhau ei fod wedi bodloni'r safonau.

Bydd y person a enwebwyd yn cefnogi'r rheolwr drwy gydol y broses trwy drafod cynnydd, arsylwi arfer a rhoi adborth. Unwaith y bydd yr holl safonau

wedi'u bodloni, bydd y rheolwr a'r person a enwebwyd yn llofnodi'r dystiolaeth, ac yn lawrlwytho tystysgrif cwblhau.

Adnoddau ychwanegol i'ch helpu

Adnoddau ychwanegol

Gall y dogfennau canlynol hefyd fod yn ddefnyddiol wrth i chi gwblhau'r fframwaith:

- Atebion sampl ar gyfer Rhan A
- Blwyddyn gyntaf fel rheolwr: canllawiau ymarfer – adnodd ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant- mae'r canllaw hwn yn darparu gwybodaeth a deunydd cyfeirio i gefnogi rheolwyr newydd ym maes y blynyddoedd cynnar

Tystysgrif gwblhau

Pan fydd yr holl safonau wedi'u bodloni, bydd bydd y person a enwebwyd yn lawrlwytho'r dystysgrif gwblhau isod. Bydd angen i'r person a enwebwyd a'r rheolwr lofnodi'r dystysgrif.

Cadwch y dystysgrif gwblhau a'r logiau tystiolaeth wedi'u cwblhau yn ddiogel fel tystiolaeth.

Lawrlwytho'r dystysgrif

Fersiwn blaenorol o'r fframwaith

Os gwnaethoch ddechrau'r Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer rheolwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant cyn 9 Tachwedd 2026, defnyddiwch dudalennau'r fframwaith blaenorol i gwblhau eich dysgu.

Cysyltu â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn rydych yn chwilio amdano, cysylltwch â ni.